Archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol

- Bydd pob CDLl newydd yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer archwiliad annibynnol.

- Bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal gan Arolygydd o'r Arolygiaeth Gynllunio.

- Bydd yr Arolygydd yn asesu a yw'r cynllun cyffredinol yn 'gadarn' neu beidio ('dangos dyfarniad teg', 'gallu ymddiried ynddo') – gweler isod am y profion 'cadernid'.

- Golyga hyn bod gan yr Arolygydd rôl bwysicach i'w chwarae wrth lunio cynlluniau nag oedd yn y gorffennol.

Y deg prawf o 'gadernid' CDLl

1) A yw'r cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau?

2) A yw'r cynllun wedi cael ei roi drwy arfarniad o gynaliadwyedd, gan gynnwys asesiad amgylcheddol strategol?

3) A yw'r CDLl yn ystyried cynlluniau, polisïau a strategaethau eraill sy'n berthnasol i'r ardal, neu ardaloedd cyfagos?

4) A yw'r cynllun yn ystyried polisi cenedlaethol?

5) A yw'r cynllun yn ystyried Cynllun Gofodol Cymru?

6) A yw'r cynllun yn ystyried y strategaeth gymunedol berthnasol (neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol) ?

7) A yw'r cynllun yn gosod strategaeth gydlynol y gall polisïau a dyraniadau lifo'n naturiol ohono?

8) A yw'r strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau'n realistig a phriodol (wedi ystyried y dewisiadau amgen perthnasol) ac a ydynt wedi'u llunio ar sylfaen o dystiolaeth gadarn a chredadwy?

9) Oes yna fecanweithiau clir ar gyfer gweithredu a monitro?

10) A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg i'w alluogi i ddelio â newid mewn amgylchiadau?